OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 946 (Cy.127)

# ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

## Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2003

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'i wneud* | - - | *26 Mawrth 2003* |
| *Yn dod i rym* | - - | *31 Mawrth 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol, a hwythau'n gweithredu ar y cyd drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1 ac 8(1) o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enw, cymhwyso a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) (Rhif 2) 2003; mae'n gymwys i Gymru a daw i rym ar 31 Mawrth 2003.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Prif Orchymyn" yw Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002(**2**).

### Diwygio erthygl 1

**3.** Yn erthygl 1(2) o'r Prif Orchymyn rhoddir y geiriau "1 Awst 2003" yn lle "1 Ebrill 2003".

### Diwygio erthygl 7

**4.** Yn lle is-baragraff (2)(a) o erthygl 7 o'r Prif Orchymyn, rhoddir yr is-baragraff canlynol —

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau a roddwyd o dan Ddeddf 1981 i "the Ministers" (yn ôl y diffiniad yn adran 86 o'r Ddeddf honno) i'r graddau eu bod yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru mewn cysylltiad â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S.1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau ar y cyd "the Ministers" a oedd yn arferadwy gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban mewn cysylltiad â Chymru i'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Amaethyddiaeth a Bwyd) 1999 (O.S. 1999/3141). Trosglwyddwyd pob swyddogaeth y Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ymhellach wedyn i'r Ysgrifennydd Gwladol gan Orchymyn y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd (Diddymu) 2002 (O.S. 2002/794).

(**2**) O.S. 2002/2302 (Cy.227), fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2003/167 (Cy.27) .

"(a) a oedd, cyn y dyddiad perthnasol, wedi ei farcio yn unol â rheoliad 7(4) neu (5) neu reoliad 14 o Reoliadau 2000; neu".

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*D. Elis-Thomas*
26 Mawrth 2003 — Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig.
*E. A. Morley*
27 Mawrth 2003 — Is-Ysgrifennydd Seneddol

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn yn hwn, sy'n gymwys i Gymru, yn diwygio Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) 2002 (O.S. 2002/2302 (Cy.227)) ("y Prif Orchymyn").

Mae'r Gorchymyn yn diwygio'r dyddiad pan fydd effaith y Prif Orchymyn yn darfod (o 1 Ebrill 2003 i 1 Awst 2003) (erthygl 3) a chywiro camgymeriad testunol a gyflwynwyd gan y Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2003 (O.S. 2003/167 (Cy.27)) (erthygl 4).

Nid oes arfarniad rheoliadol wedi ei baratoi ar gyfer y Gorchymyn hwn.